

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013

Enw'r Awdurdod Cyngor Sir Ceredigion
Lleol:

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Cytunwyd na fydd Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion yn rhannu Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn hytrach, bydd meysydd gwasanaeth penodol yn cael eu gwella ar y cyd, megis cydweithrediad ym meysydd comisiynu a datblygu'r gweithlu er enghraifft. Bydd y penderfyniad hwn yn galluogi'r cyngor i symud ymlaen yn dilyn cyfnod o ansicrwydd.

Mae'r cyngor wedi bod yn cwblhau rhaglen o weddnewid corfforaethol. Mae hyn wedi arwain at leihau nifer yr adrannau ac uwch reolwyr gan olygu mai un cyfarwyddwr strategol a phedwar pennaeth gwasanaeth sydd yn y gwasanaeth Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw bellach. Mae hyn yn disodli strwythur rheoli adrannau'r gwasanaethau cymdeithasol blaenorol. Mae'r penaethiaid gwasanaeth wedi cymryd cyfrifoldeb gweithredol am eu meysydd gwasanaeth penodol. Mae'n rhy gynnar i asesu effaith y trefniadau newydd.

Er y bu meysydd o gynnydd ac arloesedd, mae'r cyngor yn wynebu pwysau sylweddol ar ei gyllideb. Mae'n rhaid iddo gynyddu cyflymder newidiadau, yn enwedig o ran comisiynu strategol, os yw am allu ymateb i ofynion y dyfodol a darparu gwasanaethau cynaliadwy. Mae'n ymddangos bod y gallu i wneud hyn yn gyfyngedig, ac mae hyn yn peri pryder.

Oedolion

Gwnaed gwelliannau sylweddol i'r broses o adolygu gofal a chymorth pobl hŷn. Sicrhodd datblygiad pwyllgor amddiffyn oedolion cadarn ac effeithiol ymrwymiad da gan asiantaethau partner ac mae wedi cryfhau swyddogaethau diogelu oedolion y cyngor. Mae gwaith partneriaeth parhaus gyda'r adran iechyd a chydweithrediad Canolbarth a Gorllewin Cymru, ynghyd â'r ffrydiau gwaith ar y cyd â Chyngor Sir Powys i gyd yn bwysig i ddatblygiad gwasanaethau i oedolion yn y dyfodol.

Plant

Gwnaed cynnydd o ran ymateb i argymhellion arolygiadau diweddar, er nad oedd pennaeth gwasanaeth yn bresennol yn ystod y flwyddyn. Ceir tystiolaeth o ddatblygiadau o ran gweithio gyda theuluoedd a gwelliannau o ran recriwtio aelodau staff. Mae synnwyr mwy eglur o gyfeiriad i'r gwasanaeth yn dod i'r amlwg.

Mae gwaith partneriaeth yng nghydweithrediad Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i gynnig cyfleoedd i sicrhau sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y ddarpariaeth o wasanaethau i blant a theuluoedd.

Mae adroddiad trosolwg y cyfarwyddwr yn cyflwyno darlun cywir a realistig o lwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf a'r heriau y mae'r cyngor wedi eu hwynebu ac y bydd yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Yr her o oruchwylio a chydgysylltu amrywiaeth o drefniadau partneriaeth ar draws gwahanol ffiniau, a sicrhau bod hyn yn darparu blaengynllun cydlynol. Mae hefyd yn bwysig nad yw cydweithrediad yn oedi'r angen i'r cyngor wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau uniongyrchol.
- Gwasanaethau comisiynu i ddiwallu anghenion y dyfodol a'r gallu i ddatblygu hyn.
- Cadernid ariannol yn wyneb pwysau sylweddol ar gyllidebau ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

Ymateb i feysydd datblygu'r llynedd

Gwnaed rhywfaint o gynnydd gan y cyngor o ran ymateb i feysydd i'w gwella y llynedd yn y gwasanaethau i oedolion a phlant. Mae sawl maes yn dal i barhau ac fe'u hadlewyrchir eto yn adroddiad eleni.

Gwnaed cynnydd o ran adolygu anghenion pobl mewn timau oedolion, prydlondeb a chysondeb o ran ansawdd asesiadau cychwynnol a chraidd i blant a phrydlondeb adolygiadau plant mewn angen.

Mae datblygiad darpariaeth addas ar gyfer anghenion nyrsio pobl â dementia a gallu'r gwasanaethau ail-alluogi a gofal cartref yn dal i fod angen sylw.

Arfer da a nodwyd

Mae AGGCC wedi nodi'r meysydd canlynol o arfer da:

- Prosiect COASTAL ar gyfer pobl ag anableddau, ac anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl yn arbennig.
- Gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Mae'r rhain yn cyflawni swyddogaeth bwysig ac yn sicrhau canlyniadau da i blant a theuluoedd.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

Mae AGGCC wedi cynnal ymweliadau safle â gwasanaethau i oedolion a phlant, sydd wedi cynnwys y tîm cymunedol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, cyfleoedd anabledd dysgu dydd, COASTAL, contracto a chomisiynu, canolfan gyswllt, y tîm asesu plant, cyfarfodydd gyda'r cydgysylltydd plant mewn angen, y tîm cymorth i deuluoedd integredig, y Tîm o gwmpas y Teulu a'r Tîm Teulu. Derbyniwyd diweddariadau gwasanaeth gan y swyddog datblygu gofalwyr hefyd.

Aeth AGGCC i ddigwyddiad her fframwaith hysbysu'r cyngor blynyddol y cyngor hefyd.

Roedd Cyngor Sir Ceredigion yn un o'r awdurdodau lleol a gymerodd ran yn adolygiad cenedlaethol AGGCC o ganlyniadau i blant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal yn 2012. Derbyniwyd adborth cadarnhaol o ran nifer o feysydd a ystyriwyd.

Cwblhawyd y rhaglen flynyddol o arolygiadau o wasanaethau gofal y cyngor a reoleiddir i oedolion a phlant hefyd, gan gynnwys arolygiad diweddar â phwyslais penodol o'i wasanaeth maethu.

Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf

Nodwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella ym mhrif ran yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor o ran y rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ddod.

- Cynnydd o ran comisiynu strategol yn ogystal â datblygu caffael a sicrhau ansawdd.
- Cynnydd ail-fodelu gwasanaethau anabledd dysgu ac adolygiadau o anghenion gofal a chymorth pobl ag anabledd dysgu.
- Datblygiadau gwasanaeth i bobl â dementia
- Datblygiadau gwasanaeth i bobl ifanc ag anableddau sy'n symud o wasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion.
- Swyddogaeth craffu mewn datblygiad gwasanaeth.
- Arolygiad thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal.
- Adolygiad thematig cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol i bobl hŷn.

PERFFORMIAD

Llunio gwasanaethau:

Oedolion

Mae'r cyngor yn cydnabod yr angen i ddatblygu comisiynu a'r angen i ragweld anghenion y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o wir o ran pobl hŷn â dementia a phobl ag anableddau dysgu.

Mae'r cyngor wedi nodi diffyg darpariaeth o ran lleoliadau nyrsio dementia. Cynhaliwyd adolygiad o'r cyfleusterau sydd ar gael a'r modelau gofal sy'n cael eu defnyddio ac mae gwaith ar strategaeth ar gyfer dementia wedi cychwyn erbyn hyn.

Mae dull y cyngor o gontractio a chomisiynu gwasanaethau angen sylw. Mae angen diwygio'r ddogfen gontract gyfredol rhwng yr awdurdod a'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu ac mae'r awdurdod yn gweithio gyda'r sector i wneud hyn. Mae drafft o system monitro perfformiad darparwyr wedi ei lunio hefyd. Defnyddir y safonau cenedlaethol ar hyn o bryd, ond bydd angen datblygu'r rhain mewn partneriaeth â'r sector. Prin yw'r monitro o ansawdd gwasanaethau y mae'r cyngor wedi eu comisiynu oherwydd niferoedd gweithlu cyfredol y tîm.

Er y gallai'r gwaith cydweithredol â Chyngor Sir Powys arwain at fanteision yn y pen draw o ran llunio safonau ansawdd cyson, dywedir ei fod wedi cyfyngu ar gynnydd o ran datblygu strwythur tîm a gallu'r gweithlu o ran contractio a chomisiynu. Mae cydweithrediad Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd yn ystyried datblygiad contractau cyson, gallu ar draws y rhanbarth, cytundebau lefel gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, integreiddio gwasanaethau i oedolion ac un pwynt mynediad at wasanaethau. Mae hon yn agenda sy'n llawn her.

Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r swyddogaeth allweddol y mae ieuchyd yn ei chyflawni o ran darparu gwasanaethau anabledd dysgu a'r angen i wneud cynnydd pellach o ran datblygu systemau a phrosesau integredig. Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r angen i gwmpasu gofynion y gwasanaeth yn y dyfodol a bodloni disgwyliadau a dyheadau sy'n newid. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyswllt anghenion addysg, cymorth a llety. Bydd pobl sy'n dychwelyd i fyw yn yr awdurdod angen y gwasanaethau i fod ar waith i ddiwallu'r anghenion newidiol hyn.

Plant

Mae cynllun datblygu Teuluoedd yn Gyntaf wedi arwain at dargedu mwy o wasanaethau tuag at blant a theuluoedd. Mae llwyddiant ei Wasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, y Tîm o Amgylch y Teulu a'r Tîm Teulu yn gwbl amlwg. Mae natur wledig yr ardal y mae'r cyngor yn ei gwasanaethu yn parhau i fod yn her.

Mae adolygiad o'r gwasanaethau a gomisiynwyd i ddarparu ymyrraeth gynnar ac ataliad wedi arwain at fframwaith mwy cydlynol sy'n cynnwys amrywiaeth o anghenion. Sefydlwyd hyn mewn cydweithrediad â Theuluoedd yn Gyntaf.

Mae mwy o waith yn cael ei wneud hefyd o ran swyddogaeth y ganolfan i deuluoedd yn Aberystwyth, gyda'r nod o sefydlu cysylltiadau mwy eglur i ddarpariaeth statudol megis cyswllt dan oruchwyliaeth, asesiadau rhianta a'r gwasanaeth cymorth i deuluoedd integredig. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i ddatblygu dull tebyg yn ne'r sir yn 2013/14.

Gwnaed gwaith hefyd ar ddatblygu protocol ar y cyd rhwng y gwasanaethau cymdeithasol i blant a'r gwasanaethau tai o ran cyd-asesu pobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref; bydd y grŵp olaf yn cael ei atgyfeirio at y Tîm o Amgylch y Teulu i archwilio unrhyw ddewisiadau eraill sydd ar gael i'w hatal rhag bod yn ddigartref. Bydd y protocol yn cael ei sefydlu'n llawn yn 2013/14.

Meysydd o gynnydd

- Cryfhau cysylltiadau rhwng monitro contractau a diogelu.
- Gwaith cydweithredol gyda Chyngor Sir Powys.
- Datblygiad Teuluoedd yn Gyntaf.

Meysydd i'w gwella

- Cynnydd o ran datblygu strategaeth gomisiynu pobl hŷn, yn enwedig ym meysydd dementia a modelau gofal a llety.
- Cynnydd o ran datblygu a sefydlu strategaeth anabledd dysgu.
- Adolygu ei allu i fonitro ansawdd gwasanaethau y mae wedi eu comisiynu a datblygu safonau monitro ansawdd eglur.

Cael gafael ar gymorth:

Oedolion

Mae pobl yn cael gafael ar wasanaethau gofal cymdeithasol y cyngor trwy ganolfan gyswllt. Mae'r ganolfan yn cynnig un porth i bobl at y gwasanaethau i oedolion a'r gwasanaethau i blant. Cymeradwywyd gwaith y ganolfan gyswllt eleni am ei chefnogaeth i'r gymuned ehangach yn ystod y llifogydd a gafwyd mewn rhannau o'r sir.

Gall pobl ag anabledd dysgu neu eu gofalmwyr gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac, ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn gweithredu cynllun arbrofol sy'n defnyddio fformatau amgen, megis symbolau a darllen rhwydd. Ceir prosiect hefyd sydd â'r nod o alluogi gwybodaeth lluniau a fideo i gael ei rhoi ar gael i'r cyhoedd ar wefan y cyngor. Cynhyrchwyd DVD gan ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n rhoi gwybodaeth fideo am weithgareddau a gynhaliwyd yn y canolfannau cymorth cymunedol. Mae hwn wrthi'n cael ei roi ar wefan y cyngor.

Er bod y gallu i gynnal adolygiadau o anghenion pobl ag anableddau dysgu yn gwella, mae hwn yn dal i fod yn faes sy'n llawn her i'r cyngor. Mae'n rhaid i'r awdurdod ystyried ei allu yn y maes gwaith hwn.

Bu gwelliant sylweddol o ran perfformiad adolygu mewn timau oedolion eraill eleni, a chwblhawyd bron i bob adolygiad fel sy'n ofynnol.

Cytunwyd ar gynllun rhanbarthol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol ac mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) wedi ei sefydlu'n llawn bellach.

Plant

Mae gallu'r tîm asesu i ymateb i atgyfeiriadau yn fwy cadarn erbyn hyn ar ôl llenwi'r swyddi gwag yn y tîm. Mae gan y cyngor hysbyseb parhaol ar gyfer swyddi gwaith cymdeithasol ar eu gwefan, ac mae hwn wedi bod yn llwyddiannus.

Mae proses monitro perfformiad well ar waith erbyn hyn, sydd wedi ei hategu gan y ddarpariaeth o adroddiadau wythnosol, a chymorth a goruchwyliaeth mwy cadarn ar gyfer y staff.

Mae'r adran wedi adolygu ei model risg o ran llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol. Mae hyn wedi galluogi gwneud gwaith mwy effeithiol ac sydd wedi ei dargedu. Fodd bynnag, nid oes system o archwilio ffeiliau achos yn rheolaidd wedi ei sefydlu'n llawn eto.

Mae'r uned sicrhau ansawdd wedi ei hen sefydlu. Ei phrif bwyslais yw'r gwaith a wneir gyda phlant sy'n derbyn gofal. Defnyddir offeryn monitro ansawdd ar gyfer pob adolygiad, a chynhelir cyfarfodydd bob chwarter gyda'r timau i ddarparu adborth.

Ceir nifer o weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso yn y tîm gofal plant. Mae hyn yn peri her gan fod angen amser a chefnogaeth arnynt i ddatblygu profiad a chymhwysedd.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n symud rhwng y gwasanaethau a neilltuwyd aelodau staff ychwanegol er mwyn rheoli'r achosion hyn. Mae angen cytuno ar fodel ar gyfer symud rhwng gwasanaethau nawr a chynhyrchu achos busnes er mwyn sicrhau newid rhwydd i'r nifer gynyddol o bobl ifanc sy'n symud o'r gwasanaethau i blant i'r gwasanaethau i oedolion.

Ar ôl ailstrwythuro'r tîm asesu plant a theuluoedd y llynedd, mae'r tîm wedi parhau i weithredu ag elfen fechan o neilltuo dyletswydd. Parhawyd i wneud cynnydd o ran perfformiad wrth wneud penderfyniadau a chynnal asesiadau cychwynnol o ganlyniad i'r trefniadau hyn. Nododd adolygiad cenedlaethol AGGCC o ganlyniadau i blant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal ym mis Tachwedd 2012 bod tystiolaeth o "rywfaint o asesiadau cychwynnol o ansawdd da ond ar draul prydlondeb". Mae'r cyngor yn bwriadu parhau â'r cynnydd a

wnaed o ran prydlondeb ac ansawdd asesiadau cychwynnol yn ystod 2013/14 a hefyd gwella nifer y plant a welir ar eu pennau eu hunain yn rhan o'r asesiad.

Meysydd o gynnydd

- Y cynnydd a wnaed o ran cynnal adolygiadau o anghenion gofal a chymorth pobl yn y timau oedolion.
- Monitro perfformiad yn y gwasanaethau i blant.

Meysydd i'w gwella

- Adolygiadau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.
- System o archwilio ffeiliau achos yn rheolaidd.
- Datblygiad a sefydliad y model symud rhwng gwasanaethau.

Y gwasanaethau a ddarparwyd:

Oedolion

Mae cydweithio â maes iechyd yn parhau i ddangos manteision mewn nifer o feysydd gwasanaeth. Mae gwaith integredig yn y timau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynyddu.

Mae'r galw am wasanaethau gofal cartref a gwasanaethau ail-alluogi mewn rhai ardaloedd yn parhau i fod yn uchel. Mae angen cynyddu gallu'r gwasanaethau hyn i fodloni'r galw hwn. Mae'r cyngor yn cael anawsterau'n recriwtio i'r meysydd gwasanaeth hyn.

Mae'r cyngor yn bwriadu adeiladu ar waith adolygiad Alder o wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu yn Sir Benfro. Bydd hyn yn golygu bod angen adolygiad o'r holl becynnau gofal a chymorth cyfredol i bobl ag anabledd dysgu i asesu pa mor briodol yw gwasanaethau anabledd dysgu cyfredol ar gyfer diwallu anghenion pobl. Mae'r cyngor wedi ailsefydlu ei grŵp strategol aml-asantiaeth ar anabledd dysgu i gefnogi'r gwaith hwn. Mae hyn wedi arwain at gynnal gweithdai ar ofal seibiant a seibiannau byr a gweithio gyda darparwyr gwasanaeth i ddatblygu gwybodaeth i gefnogi pobl mewn llety â chymorth.

Fodd bynnag, nid oes cynllun strategol cyffredinol ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu yn y sir. Mae hyn, ynghyd â diffyg eglurder a chyfeiriad o ran cyfleoedd dydd i bobl, wedi arwain at ddatblygiad gwasanaeth anghyson. Gellir dod o hyd i dystiolaeth o hyn yn natblygiad swyddi gweithwyr arbenigol i gefnogi pobl mewn meysydd penodol fel awtistiaeth, arlwy a sgiliau gwaith. Mae datblygiad cyngor cleientiaid wedi cynnig cyfle i ddefnyddwyr lunio'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

Mae angen wedi ei nodi am ddatblygiad gwasanaeth i grŵp defnyddwyr sy'n heneiddio, i'r rhai â dementia ac i'r bobl ifanc hynny sy'n symud rhwng gwasanaethau. Bydd yn rhaid i'r cyngor gydbwyso datblygu a diwallu

anghenion pobl ifanc gan gynnal gwasanaethau i ddefnyddwyr presennol ar yr un pryd.

Mae prosiect COASTAL wedi bod yn faes lle y cymerwyd camau sylweddol. Er mai dim ond yn 2012 y dechreuodd weithredu'n llawn, mae wedi derbyn 267 o atgyfeiriadau i'w wasanaeth eisoes ac mae'n cefnogi 213 o bobl sydd wedi ymuno â'r prosiect yn y sir. Mae'n cynnig profiad a chefnogaeth gwerthfawr i bobl yn y gweithle, boed hwnnw'n waith gwirfoddol neu gyflogedig. Mae'r gweithwyr prosiect wedi gwneud cysylltiadau niferus ymhlith cyflogwyr ac wedi datblygu perthynas dda â nifer ac amrywiaeth sylweddol o gyflogwyr.

Yn yr un modd â phrosiectau COASTAL eraill, bydd cynaliadwyedd yn hollbwysig. O gofio'r dyddiad gorffen ym mis Mehefin 2014, bydd gweithio gydag adrannau eraill y cyngor yn hanfodol ac mae rhywfaint o waith da wedi cychwyn gyda swyddogaethau arlwyio a glanhau gwasanaethau mewnol y cyngor. Bydd cynaliadwyedd pellach yn dibynnu ar gysylltu'r gwaith hwn â strategaeth anabledd dysgu gyffredinol, gan sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir gan COASTAL yn datblygu'n wasanaeth prif ffrwd.

Mae'n amlwg yr ymgysylltir ac yr ymgynghorir â phobl ag anabledd dysgu wrth gynllunio sut i ddatblygu'r gwasanaeth, ac mae hyn wedi arwain at rymuso defnyddwyr i wneud dewisiadau a dylanwadu ar newidiadau.

Plant

Mae'r cyngor wedi cryfhau ei ymgysylltiad â phartneriaid o ran cytuno ar drothwyon a gwella prydlondeb hysbysu am bryderon amddiffyn plant.

Mae'r adran hefyd wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ei Dîm o Amgylch y Teulu a'i gwasanaeth cymorth i deuluoedd integredig. Mae canlyniadau da yn cael eu sicrhau i blant a theuluoedd erbyn hyn. Mae cysylltiadau â maes addysg yn cael eu sefydlu a'u cryfhau trwy leoli gweithwyr y Tîm o Amgylch y Teulu mewn ysgolion.

Comisiynwyd adolygiad o bolisiâu a gweithdrefnau mewnol. Fodd bynnag, mae dogfennau diwygiedig yn dal i fod heb eu sefydlu ar draws yr adran, gan y dywedir bod meysydd gwasanaeth yn gwerthuso effaith unrhyw newidiadau i brosesau cyn unrhyw lansiad.

Nid yw'r gwaith gyda'r gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed wedi mynd rhagddo fel y disgwyliwyd. Fodd bynnag, disgwylir i bartneriaethau a datblygiad perthynas well gryfhau bellach. Mae'r cysylltiadau â maes addysg yn dal i fod ar gam datblygol hefyd yn dilyn ailstrwythuro diweddar yn yr adran addysg. Mae cysylltiadau â'r adran dai yn gwella ar ôl cyflawni'r ailstrwythuro corfforaethol newydd.

Mae angen i'r cyngor barhau i fod yn arloesol o ran datblygu gwasanaethau cymorth a fyddai ar gael i blant a theuluoedd mewn rhannau eraill o'r wlad fel rheol. Ni chynrychiolir asiantaethau cenedlaethol yn y sir ac, o ganlyniad, cydnabyddir yr angen i weithredu'n annibynnol.

Ceir cysylltiadau â gwasanaethau i oedolion drwy'r tîm anabledd dysgu yn bennaf, lle y darparwyd cefnogaeth gyda gwaith llys. Mae gwaith symud rhwng gwasanaethau gyda'r gwasanaethau i oedolion yn dal i fod yn faes i'w ddatblygu ac i'w gwmpasu yn y dyfodol. Nodir y ceir cysylltiadau da gyda'r gwasanaethau i oedolion yn gyffredinol.

Cynhaliwyd arolygiad, â phwyslais penodol, o'i wasanaeth maethu yn ddiweddar oherwydd ymchwiliad difrifol i ofalwr maeth ynglŷn â materion troseddol ac amddiffyn plant. Canfu'r arolygiad dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfriad difrifol â'r rheoliadau, gan arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i'r cyngor. Roedd hyn yn ymwneud â chwblhau cytundeb maethu.

Meysydd o gynnydd

- Prosiect COASTAL.
- Ymgysylltu ac ymgynghori â defnyddwyr.
- Y Tîm o Amgylch y Teulu a'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd.

Meysydd i'w gwella

- Sefydlu'r polisïau a'r gweithdrefnau yn y gwasanaethau i blant sydd wedi'u hadolygu a'u diwygio.
- Gwella cysylltiadau â'r gwasanaethau addysg
- Cofnodi adolygiadau'n well ar gyfer plant mewn angen.

Yr effaith ar fywydau pobl:

Oedolion

Mae nodi gofalwyr wedi gwella ar ôl cyflwyno proses newydd yn nhimau'r gwasanaethau i oedolion. Cynigir asesiad gofalwr i bob gofalwr newydd gan y ganolfan gyswllt ar y pwynt atgyfeirio. Mae gweithwyr cymdeithasol bellach yn cofnodi pan gynigir asesiad i ofalwr a pha un a yw'r cynnig hwnnw'n cael ei dderbyn neu ei wrthod. Mae gwaith wedi cychwyn i ystyried y dull a ddefnyddir wrth gynnig asesiadau i annog pobl i fanteisio ar yr asesiadau. Mae gwaith ar y cyd yn cael ei wneud hefyd ar draws gwasanaethau i bobl hŷn, ac anableddau corfforol a dysgu i gyflwyno'r un systemau ar draws yr holl wasanaethau.

Mae gwelliant ym mherfformiad gofalwyr yn parhau i gynyddu. Bu cynnydd i nifer y gofalwyr y cynigiwyd asesiad iddynt o 295 yn 2011/12 i 462 eleni, sy'n cynnydd o 56%.

Cymeradwywyd strategaeth a chynllun cyflawni'r mesur gofalwyr rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adolygiad cychwynnol o'r broses a'r fframwaith wedi cychwyn a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2013/14.

Adolygwyd y cynllun hyfforddiant amddiffyn oedolion eleni a datblygwyd a chytunwyd rhaglen o hyfforddiant parhaus gan bwyllgor amddiffyn oedolion yr ardal. Mae effeithiolrwydd a datblygiad y pwyllgor hwn trwy gydol y flwyddyn

wedi bod yn sylweddol, gan godi proffil diogelu o fewn y cyngor a'i asiantaethau partner. Mae'r cyngor wedi dechrau rhagweld y symudiad i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol gydag awdurdodau cyfagos yn ystod y flwyddyn. Newydd gychwyn y mae'r gwaith hwn a bydd yn parhau i ddatblygu yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae arolygwyr rheoleiddio yn cadarnhau bod cysylltiadau rhwng AGGCC a'r tîm amddiffyn oedolion wedi'u sefydlu a bod y tîm monitro contractau yn cyflawni swyddogaeth bwysig wrth ymateb i bryderon.

Mae'r cyngor yn nodi gwelliant i amserlenni o'r pwynt atgyfeirio i gyfarfod strategaeth. Mae arolygwyr rheoleiddio yn cadarnhau y ceir ymateb prydlon i rybuddion diogelu a cheir ymrwymiad amlasiantaethol. Mae'r cyngor wedi ymateb yn dda i sefydliad cynlluniau ac ymchwiliadau diogelu, yn y gwasanaethau a gomisiynir ac yn y gwasanaethau mewnol.

Plant

Mae'r defnydd o ffurflen atgyfeiriadau amddiffyn plant amlasiantaethol, ynghyd â hyfforddiant amddiffyn plant amlasiantaethol, wedi gwella cysylltiadau rhwng asiantaethau partner ac wedi gwella ymatebion i atgyfeiriadau amddiffyn plant yn sgil hynny. Mae swyddogaeth yr uwch ymarferwr hefyd wedi gwella cysondeb wrth asesu trothwyon a datblygu cysylltiadau â phartneriaid. Mae angen erbyn hyn i'r cyngor sicrhau y rhennir ymwybyddiaeth a chysondeb yn y maes hwn ymhlith yr holl uwch ymarferwyr yn yr adran.

Rhoddir blaenoriaeth uchel i ddiogelu yn y cyngor, a chyhoeddwyd pum adolygiad o achosion difrifol eleni. Lluniwyd cynllun gweithredu i wella gwaith partneriaeth sy'n cael ei fonitro gan y bwrdd lleol diogelu plant.

Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi aros yn gyson yn ystod y flwyddyn ac mae cynlluniau amddiffyn plant wedi parhau i gael eu monitro trwy grwpiau craidd, sy'n golygu bod teuluoedd ac asiantaethau perthnasol yn gweithio mewn partneriaeth.

Cynhelir cynadleddau achos a chyfarfodydd grŵp craidd yn brydlon a neilltuir gweithiwr cymdeithasol cymwysedig i'r holl blant ar y gofrestr.

Amlygodd yr adolygiad Plant Mewn Angen a Phlant sy'n Derbyn Gofal fod trefniadau cyfathrebu a chysylltiadau gwaith da yn bodoli rhwng gweithwyr proffesiynol a phartneriaid allanol. Mae hyn, ynghyd â chysondeb gweithwyr cymdeithasol a pherthynas gadarnhaol â defnyddwyr gwasanaeth, wedi hybu canlyniadau da. Canfuwyd bod ansawdd a phrydlondeb asesiadau yn amrywio. Nodwyd bod gweithwyr cymdeithasol yn gwneud defnydd da o'r amrywiaeth gyfyngedig o wasanaethau sydd ar gael.

Canfu'r adolygiad o wasanaeth maethu'r cyngor, a gynhaliwyd oherwydd ymchwiliad difrifol i ofalwr maeth ynglŷn â materion troseddol ac amddiffyn plant, fod plant wedi cael eu lleoli heb gwblhau cytundeb maethu mewn un achos. Mae hwn yn fesur diogelu pwysig ac o ganlyniad, cyflwynwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfriad.

Meysydd o gynnydd

- Y Pwyllgor Ardal Amddiffyn Oedolion.
- Gwaith amddiffyn plant amlasiantaethol.

Meysydd i'w gwella

- Cwblhau'r adolygiad o'r gwasanaethau i ofalwyr o'r pwynt pan gynigir asesiad i ddechrau derbyn gwasanaeth.
- Sicrhau bod uwch ymarferwyr ar draws y gwasanaethau i blant yn rhannu dull cyson o bennu trothwyon ym maes amddiffyn plant.

GALLU

Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol:

Oedolion

Mae'r gwaith i sefydlu un pwynt mynediad integredig a thimau adnoddau cymunedol integredig yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, dylid llwyr sylweddoli effaith yr heriau ariannol cyfredol i'r cyngor a Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Mae partneriaid yn hysbysu bod diffyg ymateb cyson yn y tîm anabledd dysgu integredig o ran recriwtio a hyfforddiant staff. Mae gallu cyfredol y gweithlu yn amharu ar ddatblygiad y gwasanaeth hefyd yn ogystal â gallu'r gwasanaeth i ymateb yn fwy effeithiol i atgyfeiriadau diogelu cynyddol.

Mae perfformiad wedi parhau i wella ar draws amrywiaeth o ddangosyddion yn y gwasanaethau i oedolion yn 2012/13. Mae cynnal ac adeiladu ar berfformiad y llynedd wedi bod yn her, ond rhagorwyd yn sylweddol ar y targedau a osodwyd mewn rhai meysydd. Ni chyrrhaeddwyd y targed oedi wrth drosglwyddo gofal er bod perfformiad wedi bod yn dda. Yn anffodus, cynyddodd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ar ôl i'r bwrdd iechyd newid y defnydd o'r ysbytai cymuned ac oherwydd y diffyg niferoedd yn y sector gofal cartref.

Mae'r cyngor, ynghyd â'r bwrdd iechyd a Chyngor Sir Powys, wedi sicrhau statws safle arddangos yr asiantaeth gwella gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer ei waith yn ymwneud â moderneiddio gwasanaethau i oedolion. Mae'r cyngor yn barod i gymryd camau i ddatblygu hyn ymhellach.

Ystyrir bod rhaglen datblygu'r gweithlu yn y cyngor a'r ddarpariaeth o hyfforddiant yn gefnogol yn y gwasanaethau i oedolion. Cydnabuwyd anghenion aelodau staff arbenigol gan yr adran hyfforddiant.

Mae lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn y gwasanaethau i oedolion ac i blant yn dal i fod yn her. Mae'r darlun wedi gwella eleni ond mae angen monitro parhaus gan y rheolwyr o hyd er mwyn sicrhau gostyngiadau pellach.

Plant

Mae cadw aelodau staff mewn meysydd gwasanaeth penodol wedi bod yn her. Mae'r cyngor yn recriwtio i'r swyddi hyn yn ymarferol, yn bennaf gyda gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso, ac mae hyn wedi effeithio ar allu uwch ymarferwyr a rheolwyr timau i ddarparu'r lefel angenrheidiol o gefnogaeth a goruchwyliaeth yn ystod y flwyddyn gyntaf o ymarfer. Bydd angen i'r cyngor sicrhau bod y gefnogaeth a'r amser gan ei reolwyr rheng flaen i oruchwyllo aelodau staff sydd newydd gymhwyso yn effeithiol.

Ystyrir bod cyfleoedd hyfforddi a ddarperir gan y cyngor ar gyfer y gwasanaethau i blant yn gyfyngedig o'u cymharu â'r profiad yn y gwasanaethau i oedolion. Nid oes swyddog hyfforddi penodol erbyn hyn. Gall aelodau staff gael darnau penodol o hyfforddiant a hyfforddiant diweddarau gan sefydliadau annibynnol. Fodd bynnag, bydd angen hyfforddiant arbenigol pellach ar aelodau staff yn yr adran wrth i'r gwasanaeth ddatblygu.

Dylid cymeradwyo'r ffaith y rhoddwyd dyfarniad gwaith cymdeithasol arloesol i un o'r tîm mabwysiadu am ddefnyddio Therachwarae i gynorthwyo plant i integreiddio mewn lleoliadau mabwysiadol a chefnogi eu hymlyniad i fabwysiadwyr.

Adolygwyd y polisi goruchwyllo aelodau staff ac mae bellach yn cynnwys model o asesu'r "risg o niwed sylweddol". Gweithredir y model dau gam hwn wrth oruchwyllo aelodau staff i gychwyn, lle trafodir achosion yn systematig er mwyn nodi'r risg cyn cynnal asesiad mwy manwl ar ôl nodi risg.

Mae adolygiad cychwynnol o'r model yn dynodi bod yr aelodau staff yn ei werthfawrogi, yn enwedig fel rhan o drafodaethau achos wrth oruchwyllo.

Fodd bynnag, ceir heriau difrifol o hyd wrth i ofynion cyllidebol gynyddu, a bu gorwariant o £937,000 erbyn diwedd y flwyddyn.

Meysydd o gynnydd

- Dangosyddion perfformiad gwell ar draws amrywiaeth o feysydd gwasanaeth yn y gwasanaethau i oedolion ac i blant.

Meysydd i'w gwella

- Mynd i'r afael â'r heriau sy'n deillio o'r pwysau ariannol a wynebwr gan ei bartneriaid pan fydd angen datblygu a chefnogi gwasanaethau integredig.
- Gallu cynyddol yn y farchnad gofal cartref.
- Y ddarpariaeth o hyfforddiant arbenigol i aelodau staff yn y gwasanaethau i blant.
- Lleihau salwch aelodau staff.

Darparu cyfeiriad:

Oedolion

Mae'n gadarnhaol bod y penderfyniadau yn ymwneud â rhannu cyfarwyddwr ac integreiddio â Chyngor Sir Powys wedi eu datrys bellach. Mae hyn yn golygu y gall y cyngor symud ymlaen erbyn hyn yn dilyn cyfnod o ansicrwydd ac y gellir gwneud penderfyniadau. Er bod manteision helaeth yn bosibl wrth gydweithredu, bydd angen i'r cyngor sicrhau bod gweledigaeth eglur ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Ngheredigion, er y bydd hynny yng nghydestun ehangach cydweithredu rhanbarthol. Mae hefyd yn bwysig nad yw dyheadau a chyflymder ffrydiau gwaith ar y cyd yn atal Cyngor Sir Ceredigion rhag mynd i'r afael â blaenoriaethau uniongyrchol.

Gorffennodd y cyngor ei gynllun gwednewid corfforaethol yn 2012/13 gan leihau nifer yr adrannau ac uwch reolwyr. Mae gan y cyngor bedwar cyfarwyddwr strategol a 13 pennaeth gwasanaeth erbyn hyn. Ceir un cyfarwyddwr strategol a phedwar pennaeth gwasanaeth yn y gwasanaeth Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw bellach, sy'n disodli strwythur rheoli blaenorol yr adran gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gan y penaethiaid gwasanaeth gyfrifoldeb gweithredol am eu meysydd gwasanaeth penodol bellach. Cytunwyd na fydd Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion yn rhannu Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ond y bydd meysydd gwasanaeth penodol yn cael eu datblygu ar y cyd. Gwnaed penderfyniad gan y ddau gyngor i gydweithredu, a hynny ym meysydd comisiynu a datblygu'r gweithlu yn bennaf.

Mae blaenoriaeth barhaus y cyngor a'i ymrwymiad i wasanaethau cymdeithasol yn ystod y blynyddoedd a fu, yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gorfforaethol a gwleidyddol o'r pwysau cyllidebol sy'n wynebu'r gwasanaeth. Wrth bennu cyllideb 2012/13, mae'r cyngor wedi cydnabod effaith y gofynion cynyddol ar y sectorau ail-alluogi, gofal cartref a gofal preswyl, ynghyd â'r niferoedd cynyddol o blant sy'n derbyn gofal. Sicrhawyd cyllid priodol i gefnogi'r meysydd hollbwysig hyn.

Mae adroddiad gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2012/13 yn dod i'r casgliad bod y cyngor yn datblygu trefniadau newydd ar gyfer rheoli ei raglen welliannau, ond nid yw'r canlyniadau disgwyliedig yn eglur, gan godi pryderon am allu'r cyngor i sicrhau gwelliant a darparu gwerthusiad eglur o'r effaith y mae ei weithredoedd yn ei chael ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth. Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd bod y cyngor yn gwneud cynnydd amrywiol o ran sicrhau gwelliant yn ei feysydd blaenoriaeth oherwydd diffyg cyfrifoldeb a chanolbwynt strategol. Mae Cynghorwyr yn sbarduno dull y cyngor o hunanwerthuso a rheoli perfformiad, ond nid yw hyn wedi ei adlewyrchu yn ei hunanasesiad blynyddol hyd yma.

Ni archwiliodd AGGCC drefniadau craffu yn y cyngor eleni.

Meysydd o gynnydd

- Gorffen y prosiect yn ymwneud ag integreiddiad posibl â Chyngor Sir Powys a'r ymrwymiad i gydweithredu parhaus gyda'r bwrdd iechyd lleol a Chyngor Sir Powys.

Meysydd i'w gwella

- Sicrhau bod gweledigaeth strategol eglur ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion yng nghyd-destun ehangach cydweithredu rhanbarthol.
- Sicrhau bod y trefniadau amrywiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn darparu patrwm cydlynol o wasanaethau i bobl Ceredigion a sicrhau nad yw prosiectau sy'n cael eu cyflawni mewn partneriaeth yn atal Cyngor Sir Ceredigion rhag mynd i'r afael â blaenoriaethau uniongyrchol.
- Sicrhau bod cefnogaeth gorfforaethol yn parhau er mwyn galluogi'r gwasanaethau i oedolion ac i blant i fodloni'r gofynion cynyddol o ran cynorthwyo pobl yn eu cartrefi.